

# **Arolygiad o Bractis Meddyg Teulu (Dirybudd)**

Meddygfa Butetown

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd  
a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad:

5 Rhagfyr 2017

Dyddiad cyhoeddi: 15 Mawrth 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@gov.wales](mailto:hiw@gov.wales)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	7
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	8
3.	Yr hyn a ganfuom.....	9
	Ansawdd profiad y claf .....	10
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	17
4.	Beth nesaf?.....	26
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	27
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad .....	28
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	29
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	30

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Pwyslais ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb:** rydym yn agored ac yn onest yn y ffordd rydym yn gweithredu
- Annibynnol:** rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol:** rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

**Darparu sicrwydd:**

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

**Hybu gwelliant:**

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

**Dylanwadu ar bolisi a safonau:**

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Butetown yn Loudoun, Plas Iona, Butetown, Caerdydd, CF10 5HW, o dan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 5 Rhagfyr 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys rheolwr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwr practis, ac adolygydd lleyg.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir manylion pellach am y modd rydym yn cynnal arolygiadau o bractisau meddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom fod y gwasanaeth yn rhoi gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, sy'n ddiogel ac yn effeithiol. Fodd bynnag, mae angen cadw dogfennaeth well ar gyfer trefniadau llywodraethu.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Rhoddodd y practis ofal gan ganolbwyntio ar y claf
- Roedd y cleifion yn canmol y gofal a gawsant
- Cafodd y cleifion ofal amserol
- Roedd y practis yn lân ac wedi'i gadw'n dda drwyddo draw
- Roedd cofnodion clinigol o safon broffesiynol dda

Rydym yn argymhell y gallai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Darparu gwybodaeth, gan gynnwys y broses gwyno, y gwasanaeth hebrwng a gwybodaeth am ofalwyr
- Prosesau strwythuredig ar gyfer dysgu o hysbysiadau megis hysbysiad diogelwch, digwyddiadau niweidiol iawn, canllawiau NICE
- Cadw cofnodion o gyfarfodydd staff, cyfarfodydd y tîm amlddisgyblaeth, cyfarfodydd busnes a chyfarfodydd clinigol
- Cadw cofnodion o wiriadau recriwtio a hyfforddiant

## 3. Yr hyn a ganfuom

### Cefndir y gwasanaeth

Ar hyn o bryd, mae Practis Meddygol Butetown yn darparu gwasanaethau i tua 8,000 o gleifion. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn ardal Bae Caerdydd.

Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys tri phartner meddyg teulu rhan-amser, gyda gwaith ychwanegol gan ddau feddyg teulu cyswllt a dau feddyg teulu a gyflogir. Roedd dwy nyrs yn y practis ac un cynorthwydd gofal iechyd. Caiff y staff clinigol eu cefnogi gan reolwr amser llawn y practis, tîm o weithwyr derbynfa/ gweinyddu a staff glanhau.

Mae'r practis yn darparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys:

- Cynllunio Teuluol
- Clinig Cynenedigol
- Clinig Babanod
- Fflebotomi
- Clinig Asthma
- Clinig Diabetig
- Clinig Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint
- Clinig Iechyd Menywod
- Clinig Ffliw
- Imiwneiddio Teithio
- Cwmsela

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Roedd y practis yn rhoi gofal sy'n canolbwyntio ar y claf, a soniwyd yn ffafriol am y gofal gan y cleifion y siaradom â hwy. Gwnaethom nodi y gellid gwella derbyn adborth ffurfiol oddi wrth gleifion.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn am y gwasanaethau a ddarperir. Gwnaethom ddosbarthu holiaduron ychwanegol yn ystod yr arolygiad hefyd. Cwblhawyd 32 holiadur i gyd. Roedd sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan, ac roeddent yn cynnwys y canlynol:

*"Mae'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddyg teulu hwn yn wych..."*

*"Digon da i mi."*

*"Nid wyf yn siŵr a fyddai'n gallu (gwella). Gwych!"*

*"Digon da yn barod!"*

*"Mae'n darparu gwasanaeth da ac ni allaf feddwl am unrhyw welliannau."*

## Cadw'n iach

Gwnaethom adolygu cynnwys wyth o gofnodion electronig cleifion yn fanwl a chwech o gofnodion mewn rhywfaint o fanylder. O ganlyniad, gwelsom fod staff clinigol wedi rhoi digon o wybodaeth i gleifion am eu cyflwr iechyd, yr ymchwiliadau mae eu hangen a'r opsiynau ar gyfer rheoli eu hiechyd a'u llesiant.

Gwelsom amrywiaeth o wybodaeth yn hybu iechyd/ffordd o fyw yn cael ei harddangos ym man aros y cleifion i bobl allu cymryd y wybodaeth i'w darllen yn y dyfodol. Darparwyd gwybodaeth yn hybu iechyd ar y sgriniau teledu yn y



dderbynfa hefyd. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael i bobl ynghylch gwasanaethau a sefydliadau cymorth. Gwelsom fod yr holl wybodaeth o'r fath yn berthnasol ac yn gyfredol.

Gwnaethom siarad â 'Hyrwyddwr y Gofalwyr' penodedig, a oedd ar gael i helpu pobl yn eu swyddogaeth fel gofalwyr, ac roedd y practis wedi nodi gofalwyr a fynychodd y practis. Disgrifiodd yr aelod hwnnw o staff sut y byddent yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i ofalwyr ynghylch gwahanol asiantaethau a sefydliadau a allai eu cynorthwyo gyda'u cyfrifoldebau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, nid oedd gan y practis hysbysfwrdd i ofalwyr a allai roi gwybodaeth berthnasol a rhifau cyswllt i ofalwyr.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ddarparu hysbysfwrdd i ofalwyr er mwyn hysbysebu'r gwasanaeth a rhoi gwybodaeth berthnasol i ofalwyr.

## Gofal ag urddas

Ar y cyfan, canfuom fod pobl yn cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff. Gwnaethom arsylwi ar staff yn cyfarch cleifion, yn bersonol a thros y ffôn, mewn modd cwrtais, cyfeillgar a chroesawgar, gan eu trin ag urddas a pharch.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a chanfod y rhoddwyd ystyriaeth i gyfrinachedd a phreifatrwydd cleifion. Cymerwyd galwadau ffôn a dderbyniai'r feddygfa mewn ystafell breifat i ffwrdd o'r dderbynfa; golygai hyn y gallai'r galwadau hynny gael eu cymryd yn gyfrinachol.

Roedd y dderbynfa wedi ei gwahanu o'r man aros gan ddesg uchel a oedd yn darparu cyfrinachedd addas wrth drafod â chleifion. Gallai cleifion a oedd am gael rhagor o breifatrwydd i drafod unrhyw faterion sensitif neu gyfrinachol â'r staff wneud hynny mewn ystafell gyfweld ger y dderbynfa.

Roedd drysau i ystafelloedd ymgynghori ac ystafelloedd triniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau pan oedd staff yn gofalu am gleifion. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cymryd camau priodol i gadw preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod sesiynau ymgynghori.

Gwnaethom adolygu nodiadau rhai cleifion ac roedd enghreifftiau o gydsyniad ganddynt wedi'u dogfennu gan staff ar gyfer archwiliadau, brechlynnau a gweithdrefnau nyrsio. Roedd gwasanaeth hebrwng ar gael i gleifion, gyda nifer o staff y practis wedi'u hyfforddi. Er bod nifer o arwyddion i'w gweld yn cynnig y gwasanaeth hebrwng, ac er inni gael gwybod bod hyn yn cael ei ddangos ar y sgriniau teledu a'i gynnig yn aml gan staff, byddai rhagor o arwyddion yn y man aros a'r ystafelloedd archwilio yn gwella argaeledd y gwasanaeth i gleifion.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y gwasanaeth hebrwng yn cael ei dangos yn amlwg drwy'r holl bractis.

### Gwybodaeth i gleifion

Ar y cyfan, roedd ystod dda o wybodaeth ar gael yn y man aros i roi cyngor a chymorth i gleifion edrych ar ôl eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Roedd gwybodaeth hefyd ar gael ynghylch sefydliadau lleol a sefydliadau yn y trydydd sector (y sector gwirfoddol), ynghyd â'r grwpiau hunan-helpu sydd ar gael i roi cymorth.

Roedd yr arwyddion drwy'r practis yn glir ac roedd manau wedi'u goleuo'n dda i gynorthwyo cleifion. Roedd gan y practis hysbysfwrdd electronig a oedd yn hysbysu cleifion i fynd i'w hapwyntiad â'r clinigwr ac roedd yr hysbysiadau'n cynnwys gwybodaeth dreigl ychwanegol ynghylch y practis a chynnwys yn hyrwyddo ac yn addysgu am iechyd.

Roedd y practis wedi datblygu ffordd dda o gyfleu gwybodaeth ar ei wefan, gan ddarparu gwybodaeth ac adnoddau i gleifion megis amser agor, staffio, a threfniadau y tu allan i oriau.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd gan y practis beiriant hunan-gofrestru electronig, a oedd yn cynnwys y Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd cyffredin eraill ymysg y boblogaeth amlddiwylliannol ym Mae Caerdydd. Gellid gwneud cais am gyfieithydd ar y pryd hefyd os oedd ei angen ar gleifion neu'r clinigwr.

Roedd gan y practis hysbysiadau amlwg wedi'u lleoli yn y man aros yn hyrwyddo system dolen cymhorthydd clyw. Fodd bynnag, ni allai'r staff yn y practis gadarnhau a oedd y system dolen cymhorthydd clyw wedi'i gosod, ac os

felly, sut i'w gweithredu. Roedd hyn yn golygu na fyddai cleifion trwm eu clyw yn gallu defnyddio'r adnodd pwysig hwn.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo ddolen glyw a bod y staff yn gallu ei gweithredu.

## Gofal amserol

Canfuom fod mynediad i'r gwasanaeth yn dda, gyda 30 o 32 claf yn dweud ei bod yn hawdd iawn neu'n eithaf hawdd cael apwyntiad. Roedd cleifion yn gallu gwneud apwyntiad yn bersonol yn y practis gydag apwyntiadau galw heibio agored bob dydd, neu dros y ffôn. Roedd cleifion hefyd yn gallu cael apwyntiad ar-lein drwy ddefnyddio [Fy Iechyd Ar-lein](#)<sup>1</sup>, fodd bynnag, nifer fach iawn o gleifion a oedd wedi eu cofrestru yn y practis a ddefnyddiai hyn. Rydym yn awgrymu y dylai'r gwasanaeth fynd ati i annog cleifion i gofrestru a defnyddio Fy Iechyd Ar-lein, gan glustnodi aelod(au) o'r staff i hyrwyddo'r gwasanaeth.

Roedd cleifion yn gallu gwneud apwyntiad ar y diwrnod neu ymlaen llaw, ac roedd yn amlwg o adolygu'r system bwcio bod cleifion yn gallu cael apwyntiad â'u meddyg teulu yn hawdd. Gwelwyd hyn hefyd yng nghanlyniadau ein holiadur i gleifion.

Gallai cleifion nodi os oedd ganddynt ddewis pa feddyg teulu yr oeddent am ei weld. Lle bo'n bosibl, byddai'r staff yn ceisio bodloni'r cais, fodd bynnag os nad oedd y meddyg teulu ar gael, gwneir apwyntiad â meddyg teulu arall yn y practis.

Roedd cofnodion cleifion yn dangos proses o atgyfeirio'n gyflym drwy [Borth Cyfathrebu Clinigol Cymru](#) ar ôl yr ymgynghoriad meddygol. Mae'r meddygon yn y practis yn defnyddio eu barn glinigol eu hunain wrth atgyfeirio. Cawsom wybod nad oedd gan y practis amserlenni penodedig ar gyfer cwblhau

---

<sup>1</sup> <https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mhol/home.jsp>

cyfeiriadau, fodd bynnag, cawsom wybod y câi'r atgyfeiriadau eu cwblhau mewn modd amserol ac y blaenoriaethir atgyfeiriadau brys. Gwelsom enghreifftiau o atgyfeiriadau prydlon ac nid oedd dim tystiolaeth i'r gwrthwyneb.

Cawsom wybod nad yw'r practis yn cynnal cyfarfodydd mewnol ffurfiol i drafod cyfraddau atgyfeirio na chyfarfodydd adolygu clinigol. Rydym yn awgrymu bod y practis yn sefydlu cyfarfodydd clinigol ffurfiol yn rheolaidd rhwng y meddygon teulu i drafod achosion a rhannu'r hyn a ddysgir.

## **Gofal unigol**

### **Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**

Roedd mynediad i'r practis drwy ddrysau electronig, a oedd yn arbennig o fuddiol i gleifion â symudedd cyfyngedig neu ddiffyg symudedd. Roedd yr holl ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Roedd tŷ bach wedi'i lleoli ar lawr gwaelod y practis i hybu annibyniaeth cleifion ag anawsterau corfforol/symudedd. At hynny, roedd y drysau yn adeilad y practis yn ddigon llydan i allu defnyddio cadair olwyn a sgwter modur yn ddiogel.

Roedd gofod parcio cyfyngedig o amgylch y practis i'r cleifion, a amlygwyd fel pryder gan rai cleifion yn ein holiadur, ond rydym yn cydnabod nad yw'r sefyllfa hon o fewn rheolaeth y practis ond yn hytrach yr awdurdod lleol.

### **Hawliau pobl**

Roedd gan y practis beiriant hunan-gofrestru electronig, a oedd yn cynnwys y Gymraeg, y Saesneg ac ieithoedd cyffredin eraill ymysg y boblogaeth amlddiwylliannol ym Mae Caerdydd.

Roedd arwyddion y gwasanaeth yn ddwyieithog (Cymraeg a Saesneg), ond roedd y rhan helaethaf o'r wybodaeth i gleifion a oedd yn cael ei harddangos yn Saesneg yn unig. Cawsom wybod mai cyfyngedig oedd y ceisiadau a wnaed i'r practis gan gleifion i ymgysylltu drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, dylai'r practis ddarparu deunydd dwyieithog Cymraeg/Saesneg yn unol â'r canllawiau a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y practis yn rhagweithiol wrth ddarparu gofal i bobl ddigartref a'r rheiny mewn hostelau yn y cyffiniau. Darparodd rheolwr y practis a'r meddygon teulu fanylion am y gwaith maent wedi'i wneud i roi gwasanaeth i gleifion digartref.

Pan oedd angen, roedd y practis hefyd yn ymweld â chartrefi cleifion nad oeddent yn gallu mynd i'r practis.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gan y practis bolisi cwyno a phamffled gwyno i gleifion. Fodd bynnag, roedd angen diweddarur pamffled gwyno i gynnwys gwybodaeth ynghylch proses Gweithio i Wella<sup>2</sup> y GIG a chyfeirio cleifion at sefydliadau a all gefnogi rhywun i wneud cwyn. Nid oedd dim gwybodaeth yn cael ei harddangos yn hysbysu cleifion am y broses gwyno ac nid oedd y pamffled gwyno ar gael yn rhwydd i gleifion. Roedd rhaid iddynt ofyn amdani gan staff. Dylai gwybodaeth am gwyno gael ei dangos yn glir, a dylai fod ar gael yn rhwydd i gleifion heb orfod gofyn amdani.

Nid oedd gan y practis broses benodol i roi adborth i staff am ganfyddiadau cwynion neu ddigwyddiadau arwyddocaol. Byddai o fudd i'r practis gynnwys yr holl staff wrthym edrych ar ddigwyddiadau arwyddocaol lle bo'n bosibl. Byddai hyn yn caniatáu i'r practis greu proses er mwyn i'r holl staff fod yn ymwybodol o'r hyn a ddysgir yn dilyn cwynion neu ddigwyddiadau arwyddocaol, a dogfennu hynny. Byddai hyn hefyd o gymorth wrth roi teimlad i'r staff eu bod yn rhan o'r broses a rhoi'r cyfle iddynt godi eu pryderon eu hunain, a fyddai o fudd i ddatblygiad y practis.

Roedd gan y practis Grŵp Cyfranogiad Cleifion wedi'i sefydlu ynghyd â chofrestr o Ofalwyr. Fodd bynnag, nid oedd y practis wedi cynnal arolwg ymysg cleifion ers sawl blwyddyn. Er bod yr adborth a gawsom gan y cleifion yn gadarnhaol ar y cyfan, byddai cynnal arolwg cleifion yn rhoi sicrwydd i'r practis am y gwasanaeth maent yn ei ddarparu a gwybodaeth bosibl am ffyrdd i wella meysydd i'r cleifion.

---

<sup>2</sup> Mae Gweithio i Wella yn cyfeirio at drefniadau presennol Cymru o ran codi pryderon ynghylch triniaeth gan y GIG.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y broses gwyno, gan gynnwys Gweithio i Wella gan y GIG, yn cael ei harddangos yn glir.

Rhaid i'r practis sicrhau bod proses Gweithio i Wella y GIG yn cael ei chynnwys yn y pamffledi cwyno a bod y pamffledi hynny'n hygyrch i gleifion heb orfod gofyn amdanynt gael aelod o staff.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Darparwyd gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, dylai'r practis wella'r modd y cofnodir trefniadau archwilio a llywodraethu i roi gwell tystiolaeth o'r ffordd y cyflenwir gofal diogel ac effeithiol yn y practis.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Yn ystod taith dywys o amgylch adeilad y practis, canfuom fod yr holl fannau y mae gan gleifion fynediad iddynt yn lân ac yn daclus, gan leihau'r risg o faglu a syrthio. Roedd adeilad y practis yn cael ei gadw'n addas ar y tu mewn a'r tu allan.

Roedd gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i arwain y staff wrth eu gwaith o ddydd i ddydd. Roedd hyn yn cynnwys polisi chwythu'r chwiban a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent godi pryderon â'r uwch aelodau o staff. Fodd bynnag, ar adeg yr ymweliad arolygu, nid oedd y bolisïau ar gael yn rhwydd i staff y practis gan nad oeddent ar yriant cyfrifiadur a rennir neu ar ffurf copi caled lle gallai'r holl staff gael mynediad atynt. Cytunodd Rheolwr y Practis i symud y bolisïau i yriant cyfrifiadur a rennir a chadw ffeil copi caled o'r rhan fwyaf o'r bolisïau perthnasol yn y practis er mwyn i'r staff gael mynediad atynt.

Roedd cwmni allanol wedi cwblhau archwiliad iechyd a diogelwch yn y practis ym mis Awst 2016. Dangosodd hyn gydymffurfiaeth uchel, â chydymffurfiaeth mewn 55 o'r 60 maes a chynllun gweithredu ar gyfer y pum maes arall.

Roedd y practis yn denant yn yr adeilad yr oedd sefydliadau eraill yn ei feddiannu hefyd. Roedd tri sefydliad yn gyfrifol am sicrhau bod yr adeilad yn ddiogel, sef: Cymdeithas Tai Cymunedol Caerdydd (perchennog yr adeilad), Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (bwrdd iechyd lleol y practis), a Meddygfa Butetown. Disgrifiodd Rheolwr y Practis y trefniadau i gynnal

gwahanol archwiliadau diogelwch ac unrhyw waith neu gynnal a chadw. Nid oedd gan y practis gofrestr gyffredinol ar gyfer gwiriadau diogelwch a phwy oedd yn gyfrifol am sicrhau y cawsant eu cynnal, dyddiad eu cwblhau a'r dyddiad yr oedd disgwyl eu cynnal, unrhyw gamau gweithredu yr oedd eu hangen a phryd y cwblhawyd y rhain. Rydym yn argymhell bod y practis yn cadw cofrestr o'r gwahanol wiriadau diogelwch, er enghraifft y Profion Dyfeisiau Cludadwy, asesiadau risg tân, profi *legionella*, pwy sy'n gyfrifol am bob prawf (a lleoliad y dogfennau), pryd y cawsant eu cwblhau a phryd yr oedd eu disgwyl nesaf, a oedd angen unrhyw gamau gweithredu a'r dyddiad y câi'r rhain eu cwblhau. Byddai hyn yn helpu'r practis i ddangos bod systemau priodol ar waith i reoli risg a hybu iechyd a diogelwch yn y practis, a rhoi pwynt cyfeirio hwylus i'r practis sicrhau bod y gwiriadau diogelwch yn cael eu cwblhau mewn modd amserol.

Mae hysbysiadau diogelwch gan y bwrdd iechyd yn cael eu derbyn gan reolwr y practis, ac fe anfonir neges i'r staff perthnasol gan ddibynnu ar eu cynnwys. Cawsom wybod nad yw'r practis yn cynnal cyfarfodydd yn rheolaidd i drafod hysbysiadau diogelwch, digwyddiadau, digwyddiadau niweidiol iawn, y canllawiau NICE ac ati. Dylai'r practis sicrhau bod trefniadau addas, megis cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd, yn cael eu sefydlu i adolygu hysbysiadau diogelwch a chanllawiau NICE ac ati, er mwyn sicrhau bod y practis clinigol yn dilyn y canllawiau diweddaraf, ynghyd â'r wybodaeth a'r ddysg ddiweddaraf.

Gwnaethom siarad ag aelodau o dîm y practis ar ddiwrnod ein hymweliad arolygu, ac roeddem yn gallu cadarnhau bod y staff yn cael eu hannog i godi pryderon sydd ganddynt am ddiogelwch cleifion a/neu eu diogelwch eu hunain.

Yn fwy penodol, cadarnhaodd y staff fod cyfleoedd bob dydd i ymdrin â materion ynghylch gwasanaeth y cleifion, a thrafod y materion hynny, gyda rheolwr y practis a/neu un o'r meddygon teulu. Fodd bynnag, rydym yn argymhell bod y practis yn ystyried cyflwyno cyfarfodydd sy'n fwy strwythuredig ag iddynt gofnodion rhwng y partneriaid a rhwng y partneriaid a'r staff eraill, a fyddai'n rhoi cofnod i bawb dan sylw ynghylch yr hyn a drafodwyd ac a benderfynwyd er gwybodaeth yn y dyfodol.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis gadarnhau bod yr holl bolisiau ar gael nawr i'r staff ar rwydwaith cyffredin y cyfrifiaduron.

Dylai'r practis gadw cofrestr o wiriadau diogelwch.



## Atal a rheoli heintiau

Roedd holl fannau i gleifion ar un llawr ac roeddent oll yn hygyrch iawn. Roedd tai bach, gan gynnwys tai bach i bobl anabl, a chyfleusterau newid cewyn ar gael yn y practis. Roedd yr holl dai bach a welwyd ar gyfer cleifion yn lân ag iddynt hylendid da.

Roedd y man aros a'r ystafelloedd ymgynghori hefyd yn lân iawn ac ni welwyd unrhyw broblemau o ran rheoli heintiau. Roedd basn golchi dwylo, cyfarpar diogelu personol megis menig ym mhob ystafell ymgynghori a thriniaeth, ac roedd pob bocs miniog wedi'u storio'n briodol.

Rhoddwyd hyfforddiant rheoli heintiau i'r staff. Yn ogystal, cafodd y staff sgysiau gan gyrrff allanol eraill ynghylch atal a rheoli heintiau.

## Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom drafod â meddyg teulu y systemau sydd ar waith ar gyfer rhagnodi effeithiol. Gwnaethom hefyd adolygu cynnwys sampl o gofnodion cleifion o ran arferion rhagnodi. O ganlyniad, roeddem yn fodlon bod systemau ar waith ac y cydymffurfir â hyfforddiant sylfaenol, deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau proffesiynol.

Roeddem yn gallu cadarnhau y cynhaliwyd y cyfarfod blynyddol gofynnol ynghylch rheoli meddyginiaethau rhwng y practis ac arweinydd rhagnodi'r bwrdd iechyd.

Gwelsom y chyfleusterau a'r cyffuriau ar gael yn y practis a gâi eu defnyddio mewn achos o argyfwng i glaf (er enghraifft, claf yn llewygu). O ganlyniad, canfuom fod staff wedi cwblhau gwiriadau wythnosol i sicrhau bod cyffuriau heb ddyddio; roedd y diffibriliwr yn gweithio, ac roedd argaeledd ocsigen. Fodd bynnag, roedd y silindr ocsigen yn sefyll yn rhydd a heb ei fowntio'n briodol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod y silindr ocsigen yn cael ei storio'n briodol

## Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl

Gwelsom fod staff y practis wedi cael hyfforddiant amddiffyn oedolion a phlant (lefel 1 a 2); roedd y meddygon wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion lefel 3. Yn ddiweddar, roedd y practis wedi cael diweddariad mewn hyfforddiant gan y bwrdd iechyd, ac roeddent yn cynnig yr hyfforddiant i staff y practis i sicrhau eu bod wedi cwblhau'r fersiwn ddiweddaraf.

Roedd y pecyn meddalwedd a ddefnyddir yn galluogi 'baneri electronig' i gael eu hatodi i gofnodion plant a oedd ar 'y gofrestr risg'. Roedd y system hefyd yn galluogi nodi plant mewn gofal yn glir.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r lefelau priodol o hyfforddiant diogelu.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

O drafod â staff ac o adolygu dogfennaeth, roeddem yn sicr bod y practis yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, yn yr adroddiad hwn, rydym wedi amlygu meysydd lle gall y practis ffurfioli arferion, megis cyfarfodydd mewnol, ymarfer clinigol ac adolygu digwyddiadau, cadw cofrestr o archwiliadau diogelwch a chael adborth gan gleifion a staff, gan arwain at lywodraethu cryfach wrth gyflenwi gofal diogel ac effeithiol yn y practis.

### Cadw cofnodion

Roedd holl gofnodion cyfredol cleifion yn electronig, ac roedd angen mewngofnodi gyda chyfrinair i'w gweld. Roedd pob cofnod hanesyddol ar bapur yn cael eu cadw'n ddiogel mewn rhannau o'r practis nad oedd gan gleifion fynediad iddynt.

Roedd y practis wedi sefydlu systemau ar gyfer rheoli cyfathrebu allanol a mewnol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod y wybodaeth glinigol a

dderbyniwyd yn y practis yn cael ei chofnodi ar gofnodion cleifion a'i rhannu â'r aelodau perthnasol o staff tîm y practis mewn modd amserol. Roedd gan y practis broses darllen codau<sup>3</sup> gadarn i sicrhau y cyfeirir at wybodaeth yn gywir.

Edrychom ar sampl o gofnodion electronig cleifion a chanfuom na fyddai aelodau tîm y practis yn cael unrhyw anhawster wrth benderfynu beth i'w wneud nesaf. Ar y cyfan, roedd cofnodion cleifion a adolygwyd yn gywir, yn gyfredol, ac yn ddealladwy yn unol â'r safonau a'r canllawiau proffesiynol.

---

<sup>3</sup> **Darllen codau** yw'r derminoleg glinigol safonol ar gyfer y system a ddefnyddir mewn Meddygfeydd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cefnogi codio clinigol manwl mewn perthynas â gwybodaeth cleifion gan gynnwys: galwedigaeth; amgylchiadau cymdeithasol; ethnigrwydd a chrefydd; arwyddion clinigol, symptomau ac ati

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom ystyried hefyd sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.*

Roedd tîm sefydledig yn y practis a oedd wedi ymrwymo i roi gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses recriwtio i sicrhau y cwblheir y gwiriadau priodol ynghyd â gwelliannau wrth fonitro hyfforddiant staff i sicrhau eu bod yn cwblhau hyfforddiant mewn modd amserol.

Dylai'r practis ffurfioli ei drefniadau llywodraethu a sefydlu cyfarfodydd mewnol er budd gweithrediad y practis.

### **Llywodraethiant, arweinyddiaeth ac atebolrwydd**

Canfuom arweinyddiaeth effeithiol wrth ddarparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar y claf. Roedd tîm staff sefydlog a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac a oedd yn ymroddedig i roi'r gwasanaeth gorau y gallent i'r cleifion. Roedd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y cânt eu parchu a'u cefnogi gan eu cydweithwyr.

Roedd gan y staff gweinyddol a oedd yn gweithio yn y practis y sgiliau i gyflawni gwahanol ddyletswyddau gweinyddol. Golygai hyn y gallai'r staff weithio yn lle ei gilydd mewn achosion o absenoldeb, gan leihau'r risg o darfu ar y gwasanaeth i gleifion.

Cadarnhaodd y staff fod cyfathrebu rhyngddynt hwy a'u cydweithwyr yn agored, yn gadarnhaol a'u bod yn parchu ei gilydd. Cadarnhaodd y staff y gallent gwrdd â rheolwr y practis a'r meddygon teulu yn rhwydd ac fe'u cafwyd yn gefnogol ac yn agored i awgrymiadau i newid y modd y mae'r practis yn gweithio.

O drafod ag uwch aelodau o'r staff, rhoddwyd ystyriaeth i gynllunio ar gyfer y dyfodol a chynllunio ar gyfer staff dilynol yn y practis yn fewnol ac o fewn y

bwrdd iechyd a phartneriaid perthnasol eraill. Fodd bynnag, nid oedd copïau o gofnodion y cyfarfod mewnol diweddaraf ar gael yn y ffeil cyfarfodydd ar adeg yr ymweliad arolygu, felly nid oeddem yn gallu gwirio i'r rhain ddigwydd na'r hyn a drafodwyd ac a gytunwyd.

Roedd rheolwr y practis yn cwrdd yn ddyddiol â staff gweinyddol a staff clinigol, ac fel y bo'r angen drwy gydol y dydd. Rhoddodd hyn ffordd i roi gwybod i staff yn brydlon am unrhyw wybodaeth berthnasol ac i'r staff godi unrhyw beth yr hoffent ei drafod. Fodd bynnag, roedd diffyg cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd rhwng disgyblaethau yn y practis i sicrhau bod y staff yn cael gwybodaeth allweddol ynghylch y practis. Gwnaethom argymhell bod y practis yn cynnal cyfarfodydd strwythuredig rheolaidd i'r staff ac yn cadw cofnodion ar eu cyfer.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis ystyried sefydlu cyfarfodydd mwy strwythuredig i staff gan gadw cofnodion ar eu cyfer. Byddai hyn yn rhoi cofnod i bawb dan sylw o'r hyn a drafodwyd ac a benderfynwyd ar gyfer y dyfodol.

Dylai'r practis sefydlu proses ffurfiol wedi'i dogfennu ar gyfer rhoi adborth i staff ac i gofnodi'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion, digwyddiadau niweidiol iawn a chwynion gan gleifion.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwnaeth rheolwr y practis fonitro hyfforddiant staff a'r arfarniadau blynyddol i sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac yn cael arfarniadau. Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy yn gadarnhaol wrth drafod cyfleoedd hyfforddi a oedd ar gael yn y practis. Roedd yn dda nodi bod y practis yn cefnogi nyrsys y practis a oedd am ddatblygu eu sgiliau drwy gwblhau cyrsiau ychwanegol. Roedd hyn er budd nyrsys y practis a'r practis ei hun.

Roedd gan y staff yn y practis gontract cyflogaeth a disgrifiad swydd. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth am recriwtio; fodd bynnag, nid oedd trefn ar y ffeiliau hyn ac roeddent yn anodd i'w defnyddio. Mae angen adolygu'r rhain i sicrhau bod gwybodaeth am recriwtio megis ffurflen gais (neu curriculum vitae), cofnodion o'r cyfweiliad, geirdaon, llythyrau penodi, i'w gweld yn glir yn ffeiliau'r staff.

Cawsom wybod bod y practis yn gwirio bod yr holl staff clinigol wedi cofrestru â'u corff proffesiynol cysylltiedig, ond wrth adolygu ffeiliau'r staff nid oedd cofnod o'r gwiriadau hyn. Rhaid i'r practis gadw cofnod o wiriadau corff proffesiynol ar gyfer pob person perthnasol a gyflogir gan y practis, yn barhaol neu dros dro.

Cadwyd dogfennaeth ynghylch hyfforddiant ac arfarniadau mewn ffeiliau staff unigol. Fodd bynnag, nid oedd cofnod cyffredinol o hyfforddiant ac arfarniadau staff a fyddai o gymorth i reolwr y practis wrth fonitro cyfraddau cydymffurfio'r staff a nodi pryd yr oedd disgwyl i hyfforddiant ddyddio. Rydym yn argymhell bod y practis yn datblygu cofnod cyffredinol i gynorthwyo wrth fonitro hyfforddiant ac arfarniadau staff.

Nid oedd y practis wedi cynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar yr holl staff clinigol neu staff gweinyddol a gyflogir yn y practis. Rhaid i'r practis gwblhau lefel briodol o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Nid oedd unrhyw swyddi gwag clinigol yn y practis ar adeg ein hymweliad arolygu; fodd bynnag, cawsom wybod y byddai mewnbwn meddyg teulu yn y practis yn lleihau oherwydd amgylchiadau personol ac ymrwymadau eraill y meddyg teulu. Roedd y practis yn bwriadu recriwtio meddyg(on) teulu ychwanegol i roi mesurau wrth gefn i'r practis yn y dyfodol. Roedd y practis hefyd yn edrych ar fewnbwn clinigol amgen i helpu i fodloni'r gofynion ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

Roedd y practis yn edrych ar gymorth ychwanegol i gynorthwyo rheolwr y practis, yr oedd ei swyddogaeth a'i gyfrifoldebau wedi tyfu gyda thwf y practis ers ei sefydlu. Mae angen i'r practis sicrhau bod digon o gefnogaeth i reolwr y practis i'w gynorthwyo â'r gwaith cyffredinol o reoli'r practis.

#### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth recriwtio berthnasol, gan gynnwys gwiriadau cofrestru â chyrrff proffesiynol.

Dylai'r practis ddatblygu cofnod cyffredinol i gynorthwyo wrth fonitro hyfforddiant ac arfarniadau staff.

Rhaid i'r practis gwblhau lefel briodol o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.

Mae angen i'r practis sicrhau bod digon o gefnogaeth i reolwr y practis i'w gynorthwyo â'r gwaith cyffredinol o reoli'r practis.

## 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.



## 5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Mae arolygiadau o bractisau meddygon teulu fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Bydd practisau meddygon teulu yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant yn weithredol ac yn strategol.

Rydym yn gwirio sut y mae practisau meddygon teulu yn diwallu [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n berthnasol.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y datryswyd y pryder
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Meddygfa Butetown

**Dyddiad yr arolygiad:** 5 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw broblemau sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol	Amherthnasol

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Meddygfa Butetown

**Dyddiad yr arolygiad:** 5 Rhagfyr 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
<b>Ansawdd profiad y claf</b>				
Dylai'r practis roi hysbyswrdd i ofalwyr er mwyn hysbysebu'r gwasanaeth a rhoi gwybodaeth berthnasol i ofalwyr.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Mae hysbyswrdd wedi'i archebu ac roedd wedi cyrraedd y practis erbyn 5 Chwefror 2018.  Rhaid inni ddisgwyl i ystadau osod yr hysbyswrdd yn ei le, ac yna gallwn roi gwybodaeth arno i ofalwyr.	Christine Read Rheolwr y Practis Tiffany Crofts Derbynnydd	2 wythnos
Dylai'r practis sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y gwasanaeth hebrwng yn cael ei dangos yn	4.1 Gofal ag Urddas	Caiff hysbysiad ei roi drwy gydol ardal y practis.	Tiffany Croft Pencampwr Gofal	2 wythnos

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
amllwg drwy gydol y practis.				
Rhaid i'r practis sicrhau bod ganddo ddolen glyw a bod y staff yn gallu ei gweithredu.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Rhodddwyd gwybod i reolwr y practis ar 5 Chwefror 2018 gan y bwrdd iechyd y bydd rhaid i'r practis brynu system dolen glyw.	Christine Read Rheolwr y Practis	1 mis
Rhaid i'r practis sicrhau bod gwybodaeth ynghylch y broses gwyno, gan gynnwys Gweithio i Wella gan y GIG yn cael ei dangos yn glir.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Diweddarau'r pamffled gwyno yn ogystal â'r wefan i gynnwys Gweithio i Wella gan y GIG.	Dr Simon Braybrook (Partner) Christine Read (Rheolwr y Practis)	1 mis
Rhaid i'r practis sicrhau bod proses Gweithio i Wella y GIG yn cael ei chynnwys yn y pamffledi cwyno a bod y rhain yn hygyrch i'r cleifion heb orfod gofyn amdanynt gan aelod o staff.	6.3 Gwrando a Dysgu o Adborth	Diweddarau'r pamffled gwyno ynghyd â'r wefan i gynnwys Gweithio i Wella y GIG.	Dr Simon Braybrook (Partner) Christine Read (Rheolwr y Practis)	1 mis

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	
Rhaid i'r practis gadarnhau bod yr holl bolisiâu nawr ar gael i'r staff ar rwydwaith cyfrifiadur a rennir.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae'r practis wrthi'n parhau i adolygu polisiâu a'u diweddarau lle bo'n briodol. Rydym eisoes wedi dechrau rhoi polisiâu cyfredol ar y rhwydwaith cyfrifiadur a rennir.	Christine (Rheolwr Practis)	Read y	3 mis - parhaus
Dylai'r practis gadw cofrestr o wiriadau diogelwch.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Mae Christine Read wedi bod yn trafod â thîm rheoli CCHC ac mae ganddynt gofnodion o'r holl wiriadau diogelwch. Byddwn yn cael copiâu o'r gwiriadau a gynhaliwyd.  Byddwn yn gwella ein trefn o gadw cofnodion yn y maes hwn. Mae Penninsula Business Service Ltd yn darparu cymorth ac adolygiad strwythuredig o'r holl faterion AD/Iechyd a Diogelwch. Bydd y practis yn dechrau gwella'r modd y cedwir cofnodion.	Christine (Rheolwr Practis)	Read y	Parhaus
Rhaid i'r practis sicrhau bod y silindr ocsigen wedi'i storio'n briodol	2.6 Rheoli Meddyginiaethau	Silindr bach 2 litr o ocsigen sydd gennym, a chawsom wybod gan ein cyflenwr (ODS) i osod y silindr ocsigen ar ei ochr ac nad yw angen bod mewn	Christine (Rheolwr Practis)	Read y	Gwiro'n wythnosol

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cawell ond yn hytrach mewn man diogel, sych i ffwrdd o ddeunydd llosgadwy (fel ag y mae).		
Rhaid i'r practis sicrhau bod yr holl staff yn cwblhau'r lefelau priodol o hyfforddiant diogelu.	2.7 Diogelu plant ac oedolion mewn risg	Mae gan yr holl feddygon teulu hyfforddiant diogelu lefel 3. Ar hyn o bryd, rwy'n sefydlu hyfforddiant diogelu lefel 1 ar gyfer yr holl staff gweinyddol drwy e-ddysgu.	Christine Read (Rheolwr Practis)	3 mis
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Dylai'r practis ystyried cyflwyno cyfarfodydd staff mwy strwythuredig a chadw cofnodion ar eu cyfer, a fyddai'n rhoi cofnod i bawb sydd angen gwybod am yr hyn a drafodwyd ac a benderfynwyd ar gyfer y dyfodol.	Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Rydym wrthi'n adolygu hyn a threfnu cyfarfodydd er mwyn gwella'r ffordd yr ydym yn cofnodi ac yn rhannu gwybodaeth.	Christine Read (Rheolwr Practis)	3 mis
Dylai'r practis gyflwyno proses ffurfiol a ddogfennir ar gyfer rhoi adborth i staff a chofnodi'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau a diogelwch cleifion, digwyddiadau niweidiol iawn a chwynion gan gleifion.	Llywodraethiant, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd	Rydym yn cydnabod nad ydym wedi bod mor rhagweithiol yn y maes hwn. Dyma rywbeth y byddwn yn gweithio i'w wella.	Yr holl bartneriaid meddyg teulu a Christine Read (Rheolwr Practis/partner)	3 mis

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r practis sicrhau bod ffeiliau'r staff yn cynnwys gwybodaeth recriwtio berthnasol, gan gynnwys gwiriadau cofrestru â chyrrff proffesiynol.	7.1 Y Gweithlu	Bydd y practis yn dechrau ffurfioli'r dogfennau	Christine (Rheolwr Practis)	Ready Parhaus
Dylai'r practis ddatblygu cofnod cyffredinol i gynorthwyo wrth fonitro hyfforddiant ac arfarniadau staff.	7.1 Y Gweithlu	Bydd y practis yn dechrau ffurfioli'r dogfennau mewn ffordd fwy ffurfiol.	Christine (Rheolwr Practis)	Ready Parhaus
Rhaid i'r practis gwblhau lefel briodol o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer yr holl staff sy'n gweithio yn y practis.	7.1 Y Gweithlu	Mae'r ffurflenni ar gyfer gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu harchebu gan SSP. Ar ôl iddynt gyrraedd, bydd yr holl staff yn eu cwblhau.	Christine (Rheolwr Practis)	Ready 6-8 wythnos
Mae angen i'r practis sicrhau bod digon o gefnogaeth i reolwr y practis i'w gynorthwyo â'r gwaith cyffredinol o reoli'r practis.	7.1 Y Gweithlu	Mae cymorth dros dro ar y ffordd, ond bydd cyfarfodydd pellach â phartneriaid yn ein galluogi i ddatblygu cynllun i gefnogi'r gwaith cyffredinol o reoli'r practis.	Yr holl bartneriaid meddyg teulu a Christine (Rheolwr Practis/Partner)	Ready 6 mis



Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei weithredu.

## **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**